Adroddiad ar

Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1QQ

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pen Barras

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pen Barras |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 293 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 227 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 2.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 3.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 67.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 25/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr a staff ymroddedig yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu Cymreig a chynhwysol i ddisgyblion, gan gofleidio'r weledigaeth, 'Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg', yn hynod lwyddiannus. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu, sy'n cyfrannu'n dda at eu mwynhad o'u profiadau dysgu. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod berthnasol o fedrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan athrawon a chymorthyddion berthnasoedd gwaith gynhaliol â disgyblion, ac maent yn adnabod eu hanghenion lles a'u diddordebau dysgu yn fedrus. Maent yn fodelau iaith gwerthfawr i'r disgyblion gyda hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau siarad Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion. Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r profiadau cyfoethog mae disgyblion yn eu cael wrth iddynt feithrin eu doniau tra'n cymryd rhan mewn digwyddiadau a pherfformio mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau lleol a chenedlaethol. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau dysgu, personol a chymdeithasol pwysig.

Mae athrawon yn darparu ystod ddiddorol o weithgareddau yn briodol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio dilyniant ym medrau'r disgyblion yn ddigon bwriadus i'w cefnogi i wneud cynnydd adeiladol yn yr holl ystod fedrau dros amser.

Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r corff llywodraethol, yn adnabod cryfderau a meysydd datblygu'r ysgol yn briodol. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau monitro a gwerthuso bob tro'n canolbwyntio'n ddigon bwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar fedrau a chynnydd disgyblion, nac yn cyfrannu'n ddigon bwriadus at y broses o gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned leol, gyda'r disgyblion yn cyfoethogi eu profiadau dysgu trwy ymweliadau buddiol yn llwyddiannus. Mae'r rhieni yn falch bod eu plant yn mynychu'r ysgol hon ac maent yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau gwerthfawr wrth iddynt ymgysylltu'n fuddiol â dysgu eu plant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn mesur effaith y ddarpariaeth ar ddysgu'r disgyblion

A2 Cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn yr holl ystod fedrau ar draws y meysydd dysgu dros amser

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn gwireddu gweledigaeth yr ysgol, sef ‘Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg’, yn frwdfrydig a llwyddiannus i bawb sy’n aelod ohoni. Trwy hyn, mae’r disgyblion yn cael arweiniad a chefnogaeth gynhwysol gan arweinwyr a staff i fwynhau eu dysgu mewn amgylchedd dysgu ysgogol a Chymreig. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o'r ddarpariaeth sy’n cyfrannu’n gadarn at feithrin agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ddoeth ac ystyriol sy’n meithrin cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Caiff ei gefnogi gan dîm arwain ymroddedig a staff ysbrydoledig sy’n darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu i ddisgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod dda o fedrau.

Mae gan yr athrawon a’r cymorthyddion berthnasoedd gwaith gynhaliol â disgyblion. Maent yn adnabod eu hanghenion lles a dysgu yn fedrus ac yn diwallu eu diddordebau’n dda. Un o gryfderau’r addysgu yw’r modd mae staff yn arddel y Gymraeg yn fwriadus ac yn cyflwyno geirfa a phatrymau iaith i ddisgyblion yn adeiladol dros amser. O ganlyniad, mae medrau siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn Gymraeg yn gryfder. At ei gilydd, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn eu cefnogi’n dda i wneud cynnydd. Er hyn, nid yw disgwyliadau athrawon wrth gefnogi disgyblion i gyflwyno eu dysgu yn daclus yn ddigon uchel.

Mae staff yn annog a meithrin diddordebau disgyblion mewn darllen yn llwyddiannus wrth iddynt hyrwyddo diwylliant darllen yn effeithiol. Trwy weithgareddau darllen ysgogol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus wrth ddarllen testunau yn y ddwy iaith. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi datblygiad yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg ble mae disgyblion yn cyfoethogi eu defnydd o’r iaith yn fedrus wrth gyflwyno darnau o ysgrifennu creadigol effeithiol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg mewn ystod lawn o ffurfiau.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol, a chreadigol, fel gwaith pren. Mae bron bob disgybl yn mwynhau ymgolli mewn amrywiaeth dda o weithgareddau sy’n eu cefnogi i arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau celf. Trwy hyn, maent yn cynhyrchu darnau creadigol deniadol sy’n cael eu harddangos yn chwaethus ar draws yr amgylchedd dysgu. Caiff medrau perfformio disgyblion, fel canu, llefaru a dawnsio, eu meithrin yn hynod feistrolgar wrth iddynt ddatblygu medrau personol a chymdeithasol pwysig.

## Ciplun: Meithrin balchder cynhenid disgyblion at eu hysgol, eu bro a Chymru trwy'r celfyddydau mynegiannol

Trwy ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n cael eu darparu gan staff, mae disgyblion yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn fel aelodau dawnus ac ymroddedig o gymuned Gymreig yr ysgol, yr ardal leol ac yn genedlaethol yng Nghymru.

Mae profiadau cymryd rhan a chystadlu mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a chystadlaethau yn cefnogi disgyblion i feithrin eu doniau cerddorol a pherfformio i safon uchel. Maent yn ymroi i gydweithio fel aelodau brwd o dîm, yn datblygu dyfalbarhad wrth ymarfer ac yn magu hyder tra'n camu ar lwyfannau amrywiol, er enghraifft 'Gŵyl Top Dre' ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae'r profiadau hyn yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion fynegi eu hunain yn hyderus ac i arddangos agweddau cadarnhaol at eu hunain a'u dysgu. Yn ogystal,  trwy'r cyfleoedd niferus, mae'r disgyblion yn datblygu medrau llafar hynod fuddiol, yn gwella agweddau personol a chymdeithasol pwysig, yn meithrin balchder at eu hunaniaeth ddiwylliannol ac yn cyfrannu'n hynod werthfawr at eu profiadau creadigol a bywyd yn ehangach. Yn ogystal, mae'n dwysáu eu gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o hanes, diwylliant ac etifeddiaeth Cymru yn hynod lwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg ac yn dwysáu eu dealltwriaeth o gysyniadau rhif yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu sesiynau mathemateg pen bwriadus sy'n cefnogi disgyblion i wella eu hyfedredd rhif yn dda. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mathemategol mewn sefyllfaoedd bob dydd, gan gynnwys ymweliadau bwriadus â'r gymuned leol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn profiadau dysgu perthnasol. Trwy hyn, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un lefel â'u gwaith mathemateg mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. At ei gilydd, mae'r cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol yn addas.

Mae athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth, gan gynnwys yr ardaloedd dysgu allanol, yn effeithiol, sydd, at ei gilydd, yn annog cysondeb ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau dros amser, yn enwedig mewn ysgrifennu Saesneg, a'u medrau rhifedd a digidol ar draws y meysydd dysgu. Mae disgyblion yn falch o'r cyfleoedd i ddylanwadu ar y gweithgareddau dysgu ac ar waith ehangach yr ysgol trwy'r cynghorau amrywiol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu amrywiaeth dda o fedrau, er enghraifft wrth i'r Criw Cymraeg wahodd band lleol i ddiddanu cymuned yr ysgol.

Mae dealltwriaeth ysbrydol a moesol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Caiff gwerthoedd pwysig eu hymgorffori'n ddeallus gan athrawon mewn sesiynau addoli a

gweithgareddau dysgu perthnasol. Yn ogystal, fel rhan o’r broses fyfyrio ar wahanol agweddau o fywyd ynghyd â’u dysgu, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ystyried y cynnydd maent yn ei gyflawni yn eu gwaith, fel wrth iddynt adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wella yn eu dysgu yn ystod sesiynau ‘camu ymlaen’. Trwy hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY yn cael cefnogaeth fuddiol trwy gyfrwng rhaglenni cefnogi buddiol gyda’u hanghenion lles a’u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae gan arweinwyr drefn bendant ar gyfer hunanwerthuso’r ddarpariaeth, gan gynnwys amserlen glir o weithgareddau sy’n cynnwys yr holl staff ac ychydig o lywodraethwyr. At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn myfyrio’n synhwyrol ar agweddau pwysig o’r ddarpariaeth, gan nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu yn briodol. Er hyn, nid yw’r gweithgareddau bob tro’n canolbwyntio’n ddigon bwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar fedrau a chynnydd disgyblion. Yn ogystal, nid oes cyswllt digon cyson rhwng gwerthusiadau’r gweithgareddau monitro a’r broses cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae’r llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth a her addas i’r ysgol. Maent yn cydweithio’n briodol fel corff ac fel aelodau o is-bwyllgorau i graffu ar benderfyniadau strategol arweinwyr. Mae ychydig ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol sy’n cryfhau eu dealltwriaeth o flaenoriaethau strategol, fel ymweliadau i’r amgylchedd dysgu a chynnal trafodaethau perthnasol gyda disgyblion am eu dysgu.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd buddiol i staff gynnal trafodaethau proffesiynol rheolaidd. Lle bo’n briodol, maent yn trefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol buddiol sy’n ymateb i ofynion staff a blaenoriaethau’r ysgol. Fel aelodau gwerthfawr o unedau penodol ar draws yr ysgol, mae staff yn myfyrio’n rheolaidd ar eu harferion, sydd, dros amser, yn eu cefnogi i weithredu fel cymuned dysgu proffesiynol effeithiol.

Mae arweinwyr yn creu a chynnal cysylltiadau defnyddiol â phartneriaid yr ysgol. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn drefnus ac amserol, ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ymweld â’r ysgol er mwyn eu cefnogi i ymgysylltu’n fuddiol â dysgu eu plant.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn addas, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er bod gan arweinwyr gynllun adfer cytûn er mwyn gwella’r sefyllfa ariannol, nid ydynt wedi gweithredu’n  ddigon prydlon ar ychydig o’r camau yn y cynllun hwn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/04/2026